Cyngor Sir y Fflint

Polisi Diogelu Corfforaethol

Perchennog y ddogfen ar gyfer adolygu	Ymgynghorydd Polisi Strategol
Dyddiad ei roi ar waith	24.10.2017
Dyddiad y diwygiad diwethaf	
Fersiwn	**1**
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Hydref 2019

Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	3
2.0	Cyd-destun Deddfwriaethol	3
3.0	Amcanion ac Egwyddorion	4
4.0	Rolau a Chyfrifoldebau	5
5.0	Rolau aelodau etholedig	8
6.0	Proses Atgyfeirio	9
7.0	Cyfathrebu	11
8.0	Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol	12
9.0	Adrodd, Monitro ac Adolygu	13

Atodiad 1	Deddfwriaeth
Atodiad 2	Arwyddion o gam-drin a chaethwasiaeth fodern
Atodiad 3	Cod ymddygiad ac ymarferion gweithio'n ddiogel
Atodiad 4	Canllawiau Arferion Da i Gynghorwyr
Atodiad 5	Cylch Gorchwyl Panel Diogelu Corfforaethol
Atodiad 6	Mesur Effaith a Monitro

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae diogelu oedolion, pobl ifanc a phlant yn flaenoriaeth i'r Cyngor; mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau i gadw pobl yn ddiogel o ddifrif. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn darparu fframwaith ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor i ddiogelu a gwarchod plant ac oedolion. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Cyngor Sir Y Fflint i adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch diogelu a gwarchod plant ac oedolion.

1.2 Mae "diogelu" yn gysyniad ehangach na diogelu plant ac oedolion ac yn ymdrin â hyrwyddo: -

- Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol
- Diogelu rhag niwed ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Cyfrannu at gymdeithas.
- Lles economaidd a chymdeithasol

Mae'n cynnwys popeth y gall Cyngor ei wneud i gadw pobl yn saff, gan gynnwys lleihau'r risg o niwed a damweiniau, gweithredu i ymdrin â phryderon am ddiogelwch a sicrhau fod pobl yn tyfu i fyny ac yn byw mewn amgylchiadau diogel.

1.3 Mae cadw plant ac oedolion yn ddiogel yn fusnes i bawb, rydym i gyd yn rhannu cyfrifoldeb yn gorfforaethol ac yn unigol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a'u diogelu o eraill a all fod yn eu cam-drin. Er mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r gwasanaeth sy'n arwain wrth ymdrin ag ymholiadau am honiadau/ pryderon bod plant ac oedolion yn dioddef o niwed sylweddol, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag fo'u rôl.

1.4 Mae gan bob gweithiwr y Cyngor, aelodau etholedig contractwyr a gwirfoddolwyr sydd yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion diamddiffyn drwy eu gwaith ddyletswydd gofal i ddiogelu a hyrwyddo eu lles, ac i weithio i atal, canfod ac adrodd esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr Cyngor Sir y Fflint, cynghorwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Mae hefyd yn berthnasol i sefydliadau sydd yn cael grantiau gan y Cyngor.

1.5 Mae gofyn i ysgolion ddatblygu eu polisïau Diogelu eu hunain i gynnwys eu gweithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr eu hunain.

2.0 Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Mae cyfrifoldebau'r Cyngor i gadw oedolion a phlant yn saff wedi ei nodi mewn amryw o ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer, mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 1. Mae'r polisi wedi'i gefnogi drwy'r polisïau a gweithdrefnau mewnol canlynol:

Polisi Gwasanaeth Cwsmeriaid

Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Polisi Defnydd o'r Rhyngrwyd

Polisi Rheoli Ymddygiad Amhriodol

Polisi Recriwtio a Dethol

Polisi Diogelu (Ysgolion)

Polisi Tecstio'n Ddiogel

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Polisi Codi Pryderon

3.0 Amcanion ac Egwyddorion y polisi hwn

3.1 Mae'r canlynol yn amcanion y Polisi a Chanllawiau Diogelu: -

- Darparu fframwaith i atal, canfod ac adrodd esgeulustod a chamdriniaeth.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu gweithredu i ddelio ag unrhyw honiadau neu bryderon.
- Sicrhau bod Gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sydd yn diogelu plant ac oedolion.
- Mae gweithwyr yn gallu cynnal eu hunain yn ddiogel.
- I amlygu sut mae Cyngor Sir Y Fflint yn cyflawni ei ymrwymiadau cyfreithiol yn y maes diogelu plant ac oedolion.
- Rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, Cynghorwyr, gweithwyr a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor bod trefniadau clir ar waith i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion
- Darparu canllawiau clir i weithwyr y Cyngor a chynghorwyr i adnabod pan fydd plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed.

3.2 Yr egwyddorion sydd yn tanategu'r polisi hwn a'i weithredu yw:

- Rydym yn credu bod pob plentyn ac oedolyn (beth bynnag yw eu cefndir, diwylliant, oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd, cred grefyddol, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb drais, ofn, camdriniaeth, bwlio, ecsbloetiaeth a gwahaniaethu.
- Rydym yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu diogelu rhag niwed, ecsbloetiaeth a chamdriniaeth.
- Byddwn yn rhoi lles plant ac oedolion yng ngwraidd ein polisïau a gweithdrefnau.
- Byddwn yn gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda phlant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion.
- Byddwn yn parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion drwy wrando arnynt a lleihau unrhyw risgiau a all eu heffeithio.
- Byddwn yn buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar ac yn ceisio osgoi sefyllfa lle mae camdriniaeth neu honiadau o gamdriniaeth neu niwed yn gallu codi.

- Rydym eisiau sicrhau bod amgylchedd waith lle mae ein gweithwyr yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon ynghylch camymddwyn canfyddedig o fewn y Cyngor.

3.3 Canlyniadau

Bydd yn mesur yr effaith yn rheolaidd ac yn cyflawni'r canlyniadau lefel uchel canlynol:

- Mae dealltwriaeth glir ymysg gweithwyr, cynghorwyr, asiantaethau partner ac eraill sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisïau a chanllawiau i ddiogelu plant ac oedolion.
- Mae gweithdrefnau gwasanaethau a chorfforaethol cadarn mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi.
- Bydd cysondeb rhwng y polisi hwn a gweithdrefnau Cymru gyfan a phrotocolau lleol cysylltiedig i ddiogelu plant ac oedolion.
- Mae gweithwyr a chynghorwyr yn mynychu hyfforddiant diogelu priodol.
- Mae plant ac oedolion yn cael eu diogelu.

4.0 Rolau a Chyfrifoldebau

4.1 Mae gan bob cynghorydd, pob gweithiwr, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth dan gontract gyfrifoldeb i lynu wrth y gweithdrefnau a chanllaw a nodir yn y polisi hwn. Drwy ddilyn y gweithdrefnau a chanllawiau cywir, mae'n bosibl i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu gweithredu i ddelio ag unrhyw honiadau neu bryderon, mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sydd yn diogelu plant ac oedolion ac mae gweithwyr yn gallu cynnal eu hunain yn ddiogel.

4.2 Mae gan bob Portffolio o fewn y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae ac yn gorfod cymryd perchnogaeth lawn ar ddiogelu. Mae pob Portffolio angen deall lle mae problemau o ran diogelu yn debygol o godi yn eu gwasanaeth penodol, a sicrhau bod gweithwyr yn cael hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol o'r polisi hwn.

4.3 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb gyffredinol i sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu effeithiol i blant ac oedolion mewn lle a'u bod yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, mae rhai swyddogion allweddol sydd â chyfrifoldebau penodol dros ddiogelu.

4.4. **Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol**, **Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol)**
Yn unol â Chod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol dan Rhan 8 (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am y canlynol:

- Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn gyfrifoldeb ar bawb. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol mewn lle yn yr awdurdod lleol a gan bartneriaid perthnasol.

- Mae’n rhaid i’r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol oruchwylio ac adrodd i’r cynghorwyr yn
  gyson, ynghylch gweithredu, monitro a gwella systemau diogelu plant ac oedolion o fewn yr awdurdod lleol.
- Mae’n rhaid i drefniadau diffiniedig gyda swyddogion eraill o fewn yr awdurdod lleol, yn arbennig
  Pennaeth gwasanaethau oedolion a phennaeth gwasanaethau plant, fod yn glir mewn perthynas â threfniadau dirprwyo ac adrodd sydd yn berthnasol i faterion diogelu.
- Mae’n rhaid i’r Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion gynnwys gynrychiolydd sydd â lefel digonol o lefel o bob awdurdod lleol o fewn ardal y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. Yn absenoldeb y cyfarwyddwr, bydd swyddog arall sydd yn dderbyniol i’r cyfarwyddwr ac sydd â’r lefel digonol yn bresennol yn eu lle.
- Mae gan bob partner gyfrifoldeb cyfartal ar gyfer ymarfer swyddogaethau'r Byrddau Diogelu, yn hytrach na swyddogaeth awdurdod lleol penodol. Mae’n rhaid i gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol gefnogi gweithio mewn partneriaeth effeithiol a sicrhau bod dyletswyddau diogelu yn cael eu gweithredu yn effeithiol ar y cyd gan y Byrddau Diogelu. Mae’r rhain yn cynnwys mewn perthynas â:
  - cyfrannu at yr adolygiad a datblygiad o bolisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl;
  - codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed yn ardal y Bwrdd;
  - adolygu’n rheolaidd yr effeithiolrwydd o fesurau diogelu lleol;
  - cyflawni a sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu gan yr Adolygiad Ymarfer Plant.
    ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion;
  - lledaenu gwybodaeth ynghylch arfer orau diogelu a dysgu;
  - sicrhau bod cyfranogwyr ar draws pob partneriaid diogelu yn cael neu gyda mynediad i hyfforddiant diogelu priodol; a
  - sicrhau bod trefniadau effeithiol, dealladwy a chyhoeddus i adrodd am blant neu oedolion a amheuir i fod mewn perygl o gamdriniaeth neu
    esgeulustod.

Er bod gan bob gweithiwr gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion, y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol, yw’r Uwch Swyddog yn y Cyngor sydd â’r atebolrwydd terfynol ac annatod dros hyn.

4.5 **Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid**

Mae’r Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, yn gyfrifol ar y cyd am gadeirio’r Panel Diogelu Corfforaethol ochr yn ochr â’r Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol.

Tasgau allweddol y Prif Swyddog – Addysg ac Ieuenctid yn cynnwys gweithio i:

- wella lles plant a phobl ifanc yn yr ardal;
- diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc;
- sicrhau gweithio effeithiol rhwng partneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus;
- hyrwyddo newid strategol i blant a phobl ifanc yn yr ardal;

- creu diwylliant ar y cyd i wneud penderfyniad a gwella perfformiad; a
- hyrwyddo gwerthoedd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

4.6 Arweinydd Diogelu Dynodedig o fewn pob Portffolio

Bydd pob Portffolio o fewn y Cyngor angen enwebu "Arweinydd Diogelu Dynodedig" a fydd yn gyfrifol am:

- fod yn gyfarwydd â deddfwriaeth diogelu genedlaethol (megis diogelu Plant; Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2003); Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor; Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Pholisi a Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Diamddiffyn.
- cynrychioli eu Gwasanaeth ar y Panel Diogelu Corfforaethol y Cyngor a chyfrannu at fusnes y Panel fel sy'n ofynnol.
- mynychu gweithgareddau hyfforddi a datblygu perthnasol ar gyfer "Arweinyddion Diogelu Dynodedig".
- sicrhau bod pob gweithiwr o fewn eu hardal wedi cael yr wybodaeth/ hyfforddiant perthnasol;
- sicrhau bod diogelu yn parhau yn fater 'byw' o fewn y gwasanaeth.
- cydlynu asesiad gwasanaeth eang ac archwiliad o arferion a phrosesau diogelu.
- cadw'n gyfochrog â datblygiadau allweddol o fewn fforwm cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd ag elfen diogelu e.e. Gweithgareddau a datblygiadau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.
- codi materion perthnasol yn y Panel Diogelu Corfforaethol.

Mae'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer pob Portffolio fel a ganlyn:

Portffolio	Cyswllt
Cymuned a Menter	Katie Clubb
Gwasanaethau Corfforaethol	Fiona Mocko/Karen Armstrong
Addysg ac Ieuenctid	Claire Sinnott/Claire Homard
Newid Sefydliadol 1	Kate Leonard
Newid Sefydliadol 2	Gill Chapman
Pobl ac Adnoddau	Sharon Carney
Cynllunio a'r Amgylchedd	Siân Jones
Gwasanaethau Cymdeithasol	Neil Ayling/Jane Davies/Jayne Belton
Strydwedd a Chludiant	Kate Wilby

4.7 Prif Swyddogion

4.7.1 Bydd pob Prif Swyddog, drwy eu Timau Rheoli, yn gyfrifol ar y cyd i sicrhau bod yr holl ofynion statudol o ran diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion yn cael eu hystyried yn iawn. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder hyfforddiant a ddarperir a chynnal cofnodion hyfforddiant digonol y gweithwyr.

4.7.2 Rhaid i bob Prif Swyddog sicrhau bod eu gweithwyr yn cael eu gwirio'n briodol drwy'r gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod gweithwyr yn cydymffurfio â'r polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'n rhaid i bob Prif Swyddog sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob gwiriad a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4.7.3 Bydd pob Prif Swyddog yn sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cael hyfforddiant diogelu priodol.

4.8 Rheolwyr Llinell

Mae pob Rheolwr Llinell yn gyfrifol am sicrhau bod gweithwyr y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael hyfforddiant y maent eu hangen, sydd yn gymesur â'u cyfrifoldebau. Bydd Strategaeth Hyfforddiant yn cael ei baratoi yn nodi pa weithwyr a ddylai gael Hyfforddiant diogelu ac ar ba lefel. Blaenoriaeth fydd hyfforddi'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ym mhob Portffolio.

4.9 Gweithwyr a Gwirfoddolwyr

Mae pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau mewn modd sydd yn diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion. Mae'n rhaid iddynt hefyd weithredu mewn ffordd sydd yn eu diogelu yn erbyn honiadau ffug o gamdriniaeth cyn belled â phosibl ac yn unol â'r polisi hwn. Mae'n rhaid iddynt ddod â materion o bryder ynghylch diogelwch a lles plant ac oedolion i sylw eu rheolwr a fydd yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid cyfrifoldeb yr unigolyn yw penderfynu a yw'r unigolyn wedi cael eu cam-drin neu beidio - cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw cydlynu'r ymchwiliadau.

4.10 Contractwyr, Is-gontractwyr neu sefydliadau eraill a ariennir gan neu ar ran Cyngor Sir y Fflint

Mae contractwyr, is-gontractwyr neu sefydliadau eraill a ariennir gan neu ar ran y Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu gweithwyr yn cydymffurfio â threfniadau rheoleiddiol a dan gontract sy'n berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion. Mae gofyn i rai sefydliadau gyflawni hunanasesiad blynyddol o drefniadau diogelu, ac i adrodd ar ganlyniadau, fel rhan o drefniadau monitro contract. Disgwylir y bydd hyn yn berthnasol i fwy o sefydliadau dros amser. Mae contractwyr hefyd yn gyfrifol am hysbysu rheolwyr perthnasol o'r Cyngor ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i gyfeirio unrhyw bryderon diogelu oedolion neu blant.

4.11 Copi o "Arwyddion o Gamdriniaeth a Chaethiwed Modern" wedi'i atodi yn Atodiad 2 a "Cod ymddygiad ac Arferion Gweithio'n Ddiogel" yn Atodiad 3.

5.0 Rolau Aelodau Etholedig

5.1 Mae'n ofyniad bod pob cynghorydd yn mynychu hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion. Bydd cofrestr yn cael ei gadw o'r rheiny sydd yn mynychu a bydd hwn yn

cael ei adrodd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad a gydlynir gan y Panel Diogelu Corfforaethol. Bydd yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth ymysg cynghorwyr Sir y Fflint o'r polisi a chanllawiau hwn, ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o weithdrefnau diogelu sydd yn bodoli o fewn y Cyngor, ac yn sicrhau eu bod yn adnabod arwyddion o gamdriniaeth ac yn gwybod sut i gyfeirio pryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.2 Bydd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol yn aelodau sefydlog ar y Panel Diogelu Corfforaethol.

5.3 Bydd aelodau o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg ac Adnoddau Corfforaethol yn cael gwybodaeth ynghylch gwaith y Panel Diogelu Corfforaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau graffu a herio'r Panel Diogelu Corfforaethol. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cael gwybodaeth ynghylch y rhaglen waith y Panel Corfforaethol, y cynnydd yn erbyn y rhaglen waith a'r prif negeseuon sy'n dod o drefniadau rheoli perfformiad. Bydd arsylwadau'r Pwyllgor Craffu yn llywio a dylanwadu ar flaenoriaethau'r rhaglen waith y Panel Diogelu Corfforaethol.

5.4 Mae copi o'r "Canllawiau Arferion Da i Gynghorwyr – Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion Diamddiffyn" yn Atodiad 4.

6.0 Proses Atgyfeirio

6.1 Cydnabyddiaeth ac Atgyfeiriad
Gall amheuon ynghylch camdriniaeth fod yn 'bryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys'. Gall pryderon diogelu godi mewn gwahanol gyd-destun, gan gynnwys os ydynt eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er na fydd pryderon yn angenrheidiol yn sbarduno ymchwiliad, maent yn helpu i lunio darlun, ynghyd â phryderon gan ffynhonnell arall, a all nodi bod yr unigolyn yn dioddef o niwed.

6.2 Rhaid i unrhyw honiadau o gamdriniaeth posibl yn erbyn cydweithiwr, gofalwr, gwirfoddolwr, asiant neu unigolyn arall eu hadrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai gweithwyr gyda phryderon ynghylch diogelwch unigolyn, neu ymddygiad cydweithiwr tuag at blant neu oedolyn neu sy'n cael honiadau o gamdriniaeth posibl yn erbyn cydweithiwr, gofalwr, gwirfoddolwr neu asiant hysbysu eu rheolwr a fydd yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai Cynghorwyr adrodd pryderon yn uniongyrchol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

6.3 Dylid rhannu pryderon gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y mae problem, drwgdybiaeth neu bryder ynghylch plentyn neu oedolyn yn dod yn amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Bydd hyn yn sicrhau bod peryglon yn cael eu rheoli a bod gweithred priodol yn cael eu hystyried. Nid yw'n opsiwn i 'aros a gweld' neu i ddiystyru'r pryder fel nad yw'n berthnasol. Bydd methiant i adrodd amheuon/ honiadau o niwed neu gamdriniaeth mewn modd amserol a phriodol yn cael ei drin yn ddifrifol, a gellir ei ymchwilio yn unol â pholisi disgyblu'r Cyngor. Mae rhannu'r wybodaeth gywir ar yr adeg iawn gyda'r bobl iawn, yn sylfaenol i arferion da wrth ddiogelu plant ac oedolion. Dylai'r gweithiwr gadw cofnod ysgrifenedig:

- Beth a arsylwyd

- Beth a glywyd
- Beth a ddatgelwyd/ ddywedwyd wrthych chi
- Dyddiad y digwyddiad
- Amser y digwyddiad
- Pobl sy'n gysylltiedig
- Lleoliad
- Llofnodi a dyddio'r cofnod

Dylai'r cofnod hwn gael ei storio yn unol â Deddf Diogelu Data Mae gwybodaeth bellach ar gofnodi wedi'i nodi yn Atodiad 5.

6.4 Manylion cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol:

Plant – Yn ystod oriau swyddfa cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01352 701000

Oedolion - - Yn ystod oriau swyddfa cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01352 803444

Y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch y Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd os gwelwch yn dda ar: 0345 0533116

Cysylltwch â'r Heddlu'n uniongyrchol os credir fod trosedd wedi ei gyflawni. Ffoniwch 101 neu 999 mewn argyfwng

6.5 Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn eu gweithdrefnau mewnol eu hunain ar ôl cael atgyfeiriad i sicrhau bod yr asiantaethau a phobl gywir yn ymchwilio i'r gamdriniaeth a bod yr oedolyn neu blentyn yn ddiogel.

6.6 **Ni** ddylai gweithwyr

- ymchwilio neu ofyn cwestiynau arweiniol
- gytuno i gadw cyfrinach neu wneud addewid i gyfrinachedd - ond dylid rhoi sicrwydd y bydd yr wybodaeth yn cael ei rannu ar sail angen gwybod yn unig, fel gellir ymchwilio'r mater er mwyn cadw plant/ oedolion eraill yn ddiogel.
- cyffwrdd neu gael gwared ar dystiolaeth
- gwneud rhagdybiaeth neu gynnig eglurhad gwahanol
- gysylltu â'r camddefnyddiwr honedig
- siarad â gweithwyr cynghorwyr, ffrindiau neu ddefnyddwyr gwasanaeth eraill ynghylch y wybodaeth a rannwyd gyda chi.

Mae'n rhaid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os yw'r plentyn neu oedolyn mewn perygl.

6.7 Dylai unrhyw weithwyr a effeithir gan faterion diogelu siarad â'u rheolwr llinell i ddechrau. Mae help a chymorth ar gael gan Iechyd Galwedigaethol; gellir cael

mynediad at y gwasanaeth hwn drwy hunan-atgyfeiriad neu atgyfeiriad gan y rheolwr. Gall gweithwyr gysylltu â'r Tîm Ar Ddyletswydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar y rhif uchod os ydynt yn teimlo eu bod yn ddioddefwr o gamdriniaeth. Bydd yr holl alwadau yn cael eu trin yn gyfrinachol.

Siart Llif

Rhybuddio

Adrodd unrhyw bryderon o gamdriniaeth neu esgeulustod ar unwaith i'r rheolwr
(oni bai eich bod yn amau bod ganddynt
gysylltiad, os hynny adroddwch i'w huwch-reolwr)

Dylai rheolwr adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
(Os yw oedolyn neu blentyn mewn perygl, yna dylid cysylltu â'r heddlu)

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydlynu ymchwiliadau ac yn sicrhau bod oedolyn neu'r plentyn yn ddiogel.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi adborth ar ganlyniad yr ymchwiliad i'r rheolwr a'r unigolyn a wnaeth y rhybudd cyntaf

7.0 Cyfathrebu

7.1 Bydd y Panel Diogelu Corfforaethol yn datblygu cynllun cyfathrebu blynyddol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiogelu yn fewnol ac yn allanol i sicrhau bod gweithwyr yn adnabod arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod ac i wybod sut i adrodd unrhyw bryderon. Bydd negeseuon diogelu allweddol yn cael eu lledaenu i'r gweithlu yn dilyn cyfarfodydd gyda'r Panel Diogelu Corfforaethol.

7.2 Bydd y polisi yn cael i ledaenu yn eang i bob gweithiwr a phartneriaid perthnasol.

8.0 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

8.1 **Panel Diogelu Corfforaethol**
Pwrpas y Panel Diogelu yw

- Sicrhau bod “diogelu” yn fusnes i bawb ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor gan weithio ar y rhagosodiad bod “Diogelu” yn gydsyniad ehangach na diogelwch plant ac oedolion, ac yn ymdrin â hyrwyddo:
    - Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol;
    - Amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod;
    - Addysg, hyfforddiant a hamdden;
    - Cyfraniad at gymdeithas
    - Lles economaidd a chymdeithasol

- sicrhau bod gan y Cyngor reolaeth effeithiol a phrosesau a rheolaethau sicrwydd gweithredol mewn lle i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gorfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill.

- ystyried materion a atgyfeiriwyd i’r Panel o fewn ei gylch gorchwyl ac i yrru gwelliannau ymlaen o ran diogelu.

Mae Cylch Gorchwyl llawn y Panel Diogelu Corfforaethol yn Atodiad 6.

8.2 Bydd y Panel hwn yn cael gwybodaeth ynghylch yr arferion a gweithdrefnau gwaith pob Gwasanaeth yn y Cyngor, gan roi sicrwydd bod y Gwasanaethau yn bodloni eu dyletswyddau yn unol â Chanllawiau a Pholisi Diogelu Corfforaethol. Hefyd, bydd y Panel yn cael gwybodaeth ynghylch trefniadau rheoli perfformiad o bob Gwasanaeth, i ddangos eu bod yn rhyddhau eu dyletswyddau mewn modd sydd yn diogelu plant ac oedolion.

8.3 Bydd y Panel Diogelu Corfforaethol yn adrodd i’r Cabinet yn flynyddol. Bydd pob Aelod Cabinet yn cael sicrwydd gan y Panel, bod rhaglen waith clir mewn lle a bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn yn y maes diogelu. Yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd cyfle hefyd i’r Panel Diogelu Corfforaethol amlygu unrhyw rwystrau neu bryderon sydd ganddynt efallai o ran ymateb neu berfformiad unrhyw Bortffolio yn y Cyngor. Bydd unrhyw wersi o’r Adolygiadau Ymarfer Oedolion/ Plant yn cael eu adnabod i’r Cabinet fel rhan o’r Adroddiad Blynyddol. Bydd Diogelu hefyd yn cael ei gynnwys o fewn adroddiadau Cynllun Gwella chwarterol.

8.4 Bydd Tîm y Prif Swyddog yn cael yr adroddiad blynyddol hefyd, gydag adrodd mwy aml pan fo angen. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i’r Prif Weithredwr bod diogelu yn cael sylw digonol o fewn y Cyngor.

8.5 Mae’r Panel yn ategu rôl y Bwrdd Diogelu Plant/ Oedolyn Rhanbarthol. Mae’r rhain yn ffocysu ar sicrhau bod trefniadau aml-asiantaeth mewn lle i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn, a bod gan bartneriaid allweddol systemau diogelu priodol mewn lle. Rôl y Panel Diogelu Corfforaethol Sir y Fflint yw sicrhau trosolwg effeithiol o ddiogelu ar draws ystod eang o wasanaethau y mae’r Cyngor yn ei ddarparu a’i gomisiynu.

9.0 Adrodd, Monitro ac Adolygu

9.1 Bydd yr Adroddiad Blynyddol Panel Diogelu Corfforaethol yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi a Chanllawiau Corfforaethol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Prif Swyddog, y Cabinet ac i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Hefyd, ar ran y Cyngor ar y cyfan, bydd y Panel Diogelu yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel rhan o'r gofynion dan adran 28 Deddf Plant 2004.

9.2 Bwriedir i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol bob mis Mehefin. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i ddechrau i'r Dangosyddion Perfformiad canlynol. Rhagwelir y bydd y set data hon yn datblygu dros amser i gasglu'n well yr ehangder gweithgaredd diogelu:

- Canran o weithwyr yn cael hyfforddiant diogelu pan maent yn cael cyfarfod sefydlu.
- Canran o gynghorwyr yn mynychu hyfforddiant diogelu
- Cyfraddau atgyfeirio o wasanaethau heblaw am y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Canran o ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod.
- Canran o adolygiadau o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn y flwyddyn a gyflawnwyd o fewn terfynau amser statudol.
- Canran y cynadleddau amddiffyn plant dechreuol a oedd i fod i'w cynnal yn y flwyddyn a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o drafod y strategaeth

9.3 Bydd y Panel Diogelu Corfforaethol yn cyflawni monitro hanner blwyddyn ac yn adolygu dangosyddion perfformiad perthnasol. Mae'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yn cael data craidd eisoes yn rheolaidd. Unrhyw bryderon ynghylch tan berfformio/ llithriant yn "llinell ymholiad" posibl mewn heriau plant a bydd angen cynllun gweithredu clir i ymateb i'r pryderon.

Bydd y Polisi Diogelu yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu os yw'r ddeddfwriaeth yn newid neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a allai ddeillio o achosion neu honiadau.

Atodiad 1

Mae Deddf Plant 1989 a 2004 - yn rhoi dyletswydd statudol ar ystod o sefydliadau i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau, a gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan, yn cael eu cyflawni gan ystyried yr angen am ddiogelu a hybu lles plant**.**

Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004

Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru "Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004" yn rhoi fframwaith i waith diogelu Gwasanaethau Ieuenctid ac Addysg a sail ar gyfer cydweithrediad rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaethol ym mhrosesau atgyfeirio, asesu, cynllunio gofal, ymyrraeth ac adolygu. Yn ogystal mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Ieuenctid ac Addysg gydymffurfio gyda:
Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006: Gweithgareddau a Reolir
Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008;
Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/02 Diogelu Plant: atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg; a
Diogelu Plant mewn Addysg: Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 05/08.

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 – helpu i ddiogelu plant a hybu eu lles

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 – yn nodi plant ac oedolion a all fod yn agored i ideoleg sydd yn eu rhoi nhw, eu teuluoedd a'r cyhoedd mewn perygl os cânt eu denu i weithredu ar y credoau eithafol. Adnabod unigolyn sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio a phennu pa weithred sydd yn angenrheidiol i'w cefnogi yn cael ei gyflenwi gan y broses ymyrraeth amlasiantaeth 'Sianel' sydd yn atal ymglymiad parhaus.
Atal yw un o'r pedwar cainc strategaeth gwrthderfysgaeth llywodraeth ac amcanion i stopio pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Atal gwaith yn y cam cyn droseddol drwy ddefnyddio ymyrraeth gynnar i annog unigolion a chymunedau i herio pobl eithafol ac ideoleg terfysgwr ac ymddygiad.

Rhan 5 o'r Ddeddf yn creu 'dyletswydd cyffredinol i awdurdodau penodol, wrth ymarfer ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus o'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i derfysgaeth'. Mae'r Cyngor yn awdurdod penodol. Mae diogelu a hybu lles plant ac oedolion diamddiffyn yn ganolog i weithredu'r Strategaeth Atal.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 – mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei wneud i ddiogelu oedolion ac atal trosedd ac anrhefn pan mae'n cyflawni ei swyddogaethau**.**

Deddf Addysg 2002 - Mae Canllaw Statudol Cadw Pobl yn Ddiogel mewn Ysgolion, yn nodi'r dyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid eu dilyn i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc dan 18 oed mewn ysgolion a cholegau.

Deddf Cydraddoldeb 2010 – Yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu mewn cyflogaeth a'r gymdeithas ehangach. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i:

- gael gwared ar wahaniaethu
- gynnig cyfle cyfartal
- maethu perthynas dda rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau'r Plentyn – yn gytundeb rhyngwladol i ddiwallu anghenion plant, mae hawliau yn y cytundeb yn cynnwys diogelu'r plentyn rhag gwahanol drais corfforol neu feddyliol, anafiadau neu gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu ecsbloetiaeth.

Deddf Hawliau Dynol 1998 – yn nodi'r hawliau a rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl iddo, yn cynnwys Rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu diraddiol a Rhyddid rhag caethwasiaeth a llafur dan orfod. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i barchu hawliau dynol yn eu penderfyniadau a gweithredoedd, maent yn cynnwys yr hawl i beidio â chael eu harteithio neu eu trin mewn ffordd annynol.

Deddf Trwyddedu 2003 – mae'r Ddeddf yn nodi'r pedwar amcan trwyddedu sydd yn gorfod cael eu hystyried pan mae awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau. Y rhain yw:

1. atal trosedd ac anhrefn,
2. diogelwch y cyhoedd,
3. atal niwsans cyhoeddus, a
4. amddiffyn plant rhag niwed

Deddf Caethwasiaeth Modern 2015 wedi anelu i ddileu caethwasiaeth modern, sydd yn cynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth, llafur dan orfod a chaethiwed.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn cyflwyno dull cryfach, cadarn a phartneriaeth effeithiol i ddiogelu. Mae gofyn bod awdurdodau lleol yn trefnu gwasanaethau ataliol, gan gynnwys mewn perthynas â chyfrannu at atal pobl rhag dioddef camdriniaeth neu esgeulustod. Mae'n rhaid i bob swyddog proffesiynol a sefydliad wneud popeth y gallant i sicrhau bod plant a phobl sydd mewn perygl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth. Mae'r Ddeddf yn Cynnwys Canllaw Statudol **Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl**

Mae Deddf Trais yn Erbyn Merched a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn anelu i wella:

(a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(b) trefniadau i ddiogelu dioddefwyr o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(c) cefnogaeth i bobl sy'n cael eu heffeithio gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Atodiad 2

Arwyddion o Gam-drin a Chaethwasiaeth Fodern

Plant mewn angen

Mae cam-drin ac esgeulustod yn ffurfiau o gamdriniaeth o blentyn. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn naill ai'n uniongyrchol drwy beri niwed, neu'n anuniongyrchol, drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn teulu, neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan y rhai maent yn eu hadnabod; neu mewn achosion mwy prin, gan ddieithryn. Gallant gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu blentyn arall neu blant.
Mae yna bedwar math o gam-drin plant. Maent oll yn cael eu diffinio yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a chanllaw Llywodraeth Cymru, *Diogelu Plant*: *Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 fel a ganlyn:*

Cam-drin corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gellir achosi niwed corfforol hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n achosi salwch mewn plentyn y mae'n gofalu amdano'n fwriadol.

Gall cam-drin corfforol gynnwys:

- cleisiau, marciau neu anafiadau anesboniadwy ar unrhyw ran o'r corff
- nifer o gleisiau – mewn clystyrau, yn aml ar ran uchaf y fraich, y tu allan i'r glun
- llosgiadau sigarét
- marciau brathu dynol
- esgyrn wedi torri
- sgaldiadau, gyda marciau tasgu'n mynd tuag i fyny
- nifer o losgiadau gydag ymyl sydd wedi'i diffinio'n glir

D.S. Bydd rhan fwyaf o blant yn cael toriadau a chleisiau fel rhan o hynt a helynt bywyd pob dydd. Dylid bob amser dehongli anafiadau yn ôl hanes cymdeithasol a meddygol, cam datblygiadol y plentyn a'r eglurhad a roddwyd. Mae rhan fwyaf o gleisiau damweiniol i'w gweld dros rannau esgyrnog y corff e.e. penelin, pen-glin, crimog, ac fel arfer ar du blaen y corff. Y dangosyddion pwysig o gamdriniaeth gorfforol yw cleisiau neu anafiadau sydd yn naill ai heb eglurhad neu'n anghyson gyda'r eglurhad a roddwyd, neu'n weladwy ar rannau 'meddal' o'r corff lle mae anafiadau damweiniau yn annhebygol e.e. bochau, abdomen, cefn a phen-ôl.

Gall newidiadau mewn ymddygiad hefyd ddynodi camdriniaeth gorfforol:

- ofn bod rhywun am fynd at y rhieni i gael eglurhad
- ymddygiad ymosodol neu ffrwydrad tymer difrifol
- gwingo pan mae rhywun yn mynd atynt neu'n cael eu cyffwrdd
- amharodrwydd i newid, er enghraifft mewn tywydd poeth
- iselder neu ymddygiad wedi encilio
- rhedeg i ffwrdd o gartref.

Cam-drin Emosiynol
Cam-drin emosiynol yw mynd ati i gam-drin plentyn yn barhaus yn emosiynol nes mae'n achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plant eu bod yn ddiwerth a bod neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu yn cael eu gwerthfawrogi yn unig i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau datblygiadol amhriodol ar blant neu ddisgwyliadau amhriodol o ystyried eu hoedran. Gall gynnwys peri i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn gyson, neu drwy ecsbloetio neu lygru plant eraill. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ynghlwm â phob math o gam-drin plentyn, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

Newidiadau mewn ymddygiad a all ddynodi cam-drin emosiynol yn cynnwys:

- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troi gwallt, siglo
- methu chwarae
- ofn gwneud camgymeriadau
- anhwylderau lleferydd annisgwyl
- hunan-niweidio
- ofn i rywun fynd at y rhiant ynghylch eu hymddygiad
- oedi datblygiadol o ran cynnydd emosiynol

Cam-drin Rhywiol
Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, ddim o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddiad (er enghraifft, trais neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd heb dreiddiad megis mastyrbiad, cusanu, rhwbio neu gyffwrdd tu allan i ddillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgarwch heb gyffwrdd, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd rhywiol neu wylio gweithgarwch rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol, neu hudo plentyn i baratoi ar gyfer camdriniaeth (gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd).

Gall arwyddion o gam-drin corfforol gynnwys:

- poen neu chrafu'r man cenhedlol
- cleisiau neu waedu wrth ymyl y man cenhedlol
- clefyd a drosglwyddir yn rhywiol
- rhyddhad neu haint gweiniol
- anghysur o boenau stumog wrth gerdded neu eistedd i lawr
- Beichiogrwydd

Gall newidiadau mewn ymddygiad ddynodi cam-drin rhywiol yn cynnwys:

- newidiadau annisgwyl neu heb eglurhad mewn ymddygiad e.e. dod yn fwy ymosodol neu wedi encilio
- ofn cael eu gadael gyda pherson penodol neu grŵp o bobl
- cael hunllefau
- rhedeg i ffwrdd o gartref.
- gwybodaeth rhywiol sydd tu hwnt i'w hoedran, neu lefel ddatblygiadol
- lluniau neu iaith rywiol

- gwlychu'r gwely
- problemau bwyta megis gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niwed neu anffurfio, sydd weithiau yn arwain at ymgeisiau o hunanladdiad
- dweud bod ganddynt gyfrinachau na allent ddweud wrth neb
- camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau
- ffynonellau o arian heb eglurhad yn annisgwyl a ddim yn cael ffrindiau (yn arbennig yn oedran blaenlencyndod)
- gweithredu mewn ffordd eglur yn rhywiol tuag at oedolion

Esgeulustod
Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr sy'n methu â darparu digon o fwyd, cysgod a dillad, sy'n methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethiant i sicrhau mynediad at ofal meddygol neu driniaeth briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn.

Gall arwyddion corfforol o esgeulustod gynnwys:
- llwgu cyson, weithiau'n dwyn bwyd gan blant eraill
- yn fudur neu'n 'drewi' yn gyson
- colli pwysau, neu bod dan bwysau yn gyson
- dillad amhriodol ar gyfer yr amodau.

Gall newidiadau mewn ymddygiad ddynodi esgeulustod gynnwys:
- cwyno eu bod wedi blino drwy'r amser
- ddim yn gofyn am gymorth meddygol ac/ neu fethu â mynychu apwyntiadau
- cael ffrindiau newydd
- dweud eu bod wedi cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu heb oruchwyliaeth

Nid yw'r diffiniadau a dangosyddion hyn yn derfynol, ond yn arweiniad i'ch cynorthwyo yn unig. Mae hefyd yn bwysig cofio y gall nifer o blant ddangos rhai o'r dangosyddion hyn ar ryw adeg, a ni ddylai mwy nag un ohonynt gael eu cymryd fel tystiolaeth bod camdriniaeth yn digwydd. Gall bod rhesymau eraill am newidiadau mewn ymddygiad megis marwolaeth neu enedigaeth babi newydd yn y teulu neu broblemau perthynas rhwng rhieni/ gofalwyr. Yn asesu a yw dangosyddion yn berthnasol i gamdriniaeth neu beidio, bydd Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser eisiau eu deall mewn perthynas â datblygiad chyd-destun y plentyn.

Oedolion sydd angen eu Diogelu

Categorïau o Gamdriniaeth
Mae nifer o ffyrdd y gall unigolyn diamddiffyn gael eu cam-drin. Nid yw'n anarferol i oedolyn sy'n cael ei gam-drin dioddef mwy nag un math o gamdriniaeth. Yn unol â hynny, mae effaith y gamdriniaeth a'i ddifrifoldeb ar gyfer yr unigolyn yn gorfod cael ei werthuso ym mhob achos.
Mae Mewn Dwylo Diogel yn nodi pum brif categori o gamdriniaeth*:* Corfforol

Rhywiol
Ariannol
Emosiynol neu Ffisiolegol
Esgeulustod

Cam-drin Corfforol
Mae cam-drin corfforol yn faich diangen o boen, dioddefaint neu anaf corfforol gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb, gofal neu warchodaeth, neu sydd mewn sefyllfa o neu ddisgwyliad o ymddiriedaeth i unigolyn diamddiffyn. Gall camdriniaeth gorfforol gael ei gyflawni hefyd ar oedolion diamddiffyn gan un arall.

Cam-drin Rhywiol
Mae cam-drin rhywiol oedolion yn cyfeirio at ymglymiad uniongyrchol neu anuniongyrchol i oedolyn diamddiffyn mewn gweithgaredd rhywiol y maent yn anfodlon neu methu â rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth, neu nad ydynt yn amgyffred yn llawn, neu sydd yn torri gwaharddiad cymdeithasol rolau teulu, megis llosgach. Gall camdriniaeth rywiol gael ei gyflawni hefyd gan un oedolyn diamddiffyn ar un arall.

Mae unrhyw weithgaredd rhywiol sydd ddim yn cydsynio yn rhydd yn drosedd. Lle mae camdriniaeth o ymddiriedaeth, gall gweithgaredd rhywiol ymddangos i fod gyda chydsyniad, ond mae'n annerbyniol oherwydd y gwahaniaethau mewn pŵer a dylanwad rhwng y bobl ynghlwm.
Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys ymglymiad mewn puteindra neu 'traffig rhywiol' oedolion mewn perygl.

Camdriniaeth Emosiynol neu Seicolegol
Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol yw cosb o ddioddefaint meddyliol gan unigolyn mewn sefyllfa neu ddisgwyliad o ymddiriedaeth ar unigolyn diamddiffyn. Gall camdriniaeth emosiynol/ seicolegol gael ei gyflawni hefyd gan un oedolyn diamddiffyn ar un arall.
Mae camdriniaeth emosiynol neu seicolegol yn cynnwys bwlio, sydd yn fwriadol yn nodweddiadol, ymddygiad niweidiol wedi'i ailadrodd dros amser, a all gynnwys gamdriniaeth gorfforol ond fel arfer yn llafar (galw enwau neu fygythiadau). Gall danseilio hunanhyder, gall achosi'r dioddefwr fod yn fwy unig ac weithiau arwain at hunan-niweidio.

Gall gamdriniaeth emosiynol neu seicolegol, gan gynnwys **bwlio ac aflonyddwch**, fod yn gyfrwys iawn, er enghraifft anwybyddu neu eithrio'r dioddefwr. Gall camdriniaeth o'r fath fod yn uniongyrchol, megis peidio ag ymateb i'r unigolyn, neu'n anuniongyrchol megis rhoi hoffter annheg i unigolyn arall.

Gall gamdriniaeth emosiynol neu seicolegol fod yn gronnus, o bosibl yn cynyddu dros nifer o fisoedd neu flynyddoedd. Gall gynnwys un neu fwy o bobl a gall fod yn rhan o ddiwylliant o fewn sefydliad, cyfundrefn neu wasanaeth.

Enghraifft arall o gamdriniaeth seicolegol yw pan mae oedolyn diamddiffyn yn cael ei annog, gymell neu ei ecsbloetio i gyflawni trosedd neu gamdriniaeth. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys annog rhywun i ddwyn, berfformio gweithredoedd o

drais a chyflawni troseddau rhyw. Hefyd mae enghreifftiau wedi bod o oedolion diamddiffyn yn cael eu hecsbloetio i gyflawni gweithredoedd o eithafiaeth radical. Wrth bennu os mai naill ai camdriniaeth emosiynol neu seicolegol sydd wedi digwydd, yr effaith ar yr oedolyn diamddiffyn sydd yn cyfrif. Efallai nid yw gweithredoedd unigol yn ymddangos yn arwyddocaol a gall fod yn ddigwyddiad unwaith, ond os ydynt yn rhan o batrwm ehangach o gamdriniaeth a brofwyd gan oedolyn diamddiffyn, gall yr effaith arnynt fod yn sylweddol. Felly, mae'r cyd-destun ehangach y mae'r weithred wedi cael ei brofi gan oedolyn diamddiffyn yn gorfod cael ei ystyried bob amser i bennu a yw'r gamdriniaeth wedi digwydd neu beidio.

Camdriniaeth Ariannol neu Faterol
Camdriniaeth ariannol neu faterol yw unrhyw ddwyn neu gamddefnyddio arian unigolyn, eiddo neu adnoddau gan unigolyn mewn sefyllfa, neu ddisgwyliad, o ymddiriedaeth i unigolyn diamddiffyn. Mathau cyffredin o gamdriniaeth ariannol yw camddefnyddio gan eraill o fudd-daliadau gwladwriaeth neu bwysau i newid ewyllys yr oedolyn diamddiffyn. Gall gamdriniaeth ariannol/ materol gael ei gyflawni hefyd gan un oedolyn diamddiffyn ar un arall.

Esgeulustod
Esgeulustod yw methiant unrhyw unigolyn lle mae disgwyliad o ymddiriedolaeth a/ neu gyfrifoldeb, ofal neu warchodaeth unigolyn diamddiffyn i ddarparu'r gofal hynny y byddai unigolyn rhesymol mewn sefyllfa tebyg yn ei ddarparu.
Gallai esgeulustod fod yn droseddol neu ddim yn droseddol. Hefyd gall fod o ganlyniad o weithredoedd neu esgeulustod bwriadol neu anfwriadol.

Caethwasiaeth fodern
Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys caethwasiaeth, caethiwed, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl. Mae masnachwyr a chaethfeistri yn gorfodi ac yn twyllo unigolion yn erbyn eu hewyllys i fywyd o gam-drin, caethiwed a thriniaeth annynol. Gall dioddefwyr gael eu hecsbloetio'n rhywiol, eu gorfodi i weithio am ychydig o dâl neu ddim tâl o gwbl, neu gael eu gorfodi i gyflawni gweithgareddau troseddol yn erbyn eu hewyllys. Mae dioddefwyr yn aml yn cael eu gorfodi i gaethiwed dyledion ac yn debygol o fod yn ofn y rhai sy'n eu hecsbloetio, a fydd yn aml yn bygwth ac yn cam-drin dioddefwyr a'u teuluoedd. Mae'r holl ffactorau hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i ddioddefwyr ddianc. Nid oes dioddefwr nodweddiadol o gaethwasiaeth - gall dioddefwyr fod yn ddynion, merched neu blant o bob oedran a chenedligrwydd. Mae llawer o ddioddefwyr yn wladolion tramor sy'n cael eu cludo i'r DU yn benodol er mwyn gallu eu cam-drin a'u hecsbloetio er budd eraill. Mae rhai'n cael eu twyllo i feddwl eu bod yn syml yn talu eraill i hwyluso eu taith i'r DU, neu eu bod yn cael eu smyglo yma. Nid yw llawer yn darganfod eu bod yn cael eu tynghedu i fywyd o gam-drin a chaethiwed hyd nes ar ôl iddynt gyrraedd.

Nid yw pob dioddefwr o gaethwasiaeth fodern yn cael eu masnachu ar draws y ffin. Rydym yn gwybod bod masnachu dioddefwyr yn fewnol i rannau eraill o'r wlad yn digwydd a bod ffurfiau eraill o gaethwasiaeth fodern yn cynnwys peidio â symud y dioddefwr o gwbl.

Mae mathau o gaethwasiaeth yn cynnwys:

Masnachu mewn plant Mae pobl ifanc (o dan 18) yn cael eu symud naill ai'n rhyngwladol neu'n fewnol fel y gellir eu hecsbloetio.

Llafur gorfodol/caethiwed dyledion Mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i dalu eu dyledion na fyddant byth mewn gwirionedd yn gallu eu talu**.** Mae cyflogau isel a dyledion cynyddol yn golygu na allant dalu'r benthyciad, ond gall y ddyled gael ei basio ymlaen i'w plant.

Llafur gorfodol Dioddefwyr yn cael eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewyllys, gweithio oriau hir iawn yn aml am ychydig iawn neu ddim cyflog mewn amodau ofnadwy gan ddioddef bygythiadau geiriol neu gorfforol o drais yn eu herbyn neu eu teuluoedd. Gall ddigwydd mewn sawl sector o'n heconomi, o fwyngloddio i darmacio, lletygarwch a phecynnu bwyd.

Camfanteisio'n rhywiol Mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i berfformio gweithredoedd rhywiol camdriniol neu heb eu cydsyniad yn erbyn eu hewyllys, gan gynnwys puteindra, gwaith partneru a phornograffi**.** Er mai merched a phlant yw'r mwyafrif o ddioddefwyr, gall dynion gael eu heffeithio hefyd. Mae oedolion yn aml yn cael eu gorfodi o ganlyniad i fygythiad o drais, neu gosb arall.

Cam-fanteisio troseddol Wedi eu rheoli a'u cam-drin yn aml, gorfodir dioddefwyr i gyflawni troseddau megis tyfu canabis neu fod yn lleidr poced yn erbyn eu hewyllys.

Caethwasanaeth domestig Gorfodir dioddefwyr i wneud gwaith tŷ a gwaith domestig mewn cartrefi preifat am ychydig iawn o dâl neu ddim o gwbl, symudiad dan gyfyngiadau, amser rhydd prin iawn neu ddim o gwbl ac ychydig iawn o breifatrwydd, gan gysgu yn eu man gwaith yn aml iawn**.** Gan ei fod yn digwydd mewn cartrefi preifat, mae'n ffurf gudd iawn o gam-fanteisio.

Arwyddion a symptomau

- Gall dioddefwyr ddangos arwyddion o gam-drin corfforol neu seicolegol, edrych fel pe baent â diffyg maeth neu ymddwyn yn dawedog.

- Efallai nad ydyw dioddefwyr yn cael teithio ar eu pen eu hunain yn aml, gan ymddangos fel pe baent o dan reolaeth neu ddylanwad eraill, nad ydynt yn ymgysylltu'n aml iawn neu'n edrych fel pe baent yn anghyfarwydd â'u cymdogaeth neu lle maent yn gweithio.

- Gall dioddefwyr fod yn byw mewn llety budr, cyfyng neu orlawn, a/neu'n byw ac yn gweithio yn yr un cyfeiriad.

- Efallai na fydd dioddefwyr â dogfennau yn dangos pwy ydynt, ychydig iawn o feddiannau personol a bob amser yn gwisgo'r un dillad. Efallai nad ydyw'r dillad maent yn eu gwisgo'n addas i'w gwaith.

- Ychydig iawn o gyfle sydd gan ddioddefwyr i symud yn rhydd ac efallai bod rhywun arall yn cadw eu dogfennau teithio, e.e. pasportau.

- Efallai bod rhywun yn eu gollwng o'r gwaith / yn eu casglu o'r gwaith yn rheolaidd, naill ai'n fuan iawn neu'n hwyr yn y nos.

- Gall dioddefwyr osgoi cyswllt llygaid, ymddangos fel pe baent yn ofn neu'n amharod i siarad â dieithriaid, ac yn ofn gorfodwyr y gyfraith am sawl rheswm, megis nid yn gwybod pwy i ymddiried ynddynt neu le i gael cymorth, ofn alltudiaeth, ofn trais yn eu herbyn nhw neu eu teulu.

Atodiad 3
COD YMDDYGIAD AC YMARFERION GWEITHIO'N DDIOGEL

1. Mae'r cod ymddygiad hwn yn ddatganiad ac yn ddisgrifiad o'r safonau proffesiynol o arferion sydd yn ofynnol gan bob gweithiwr y Cyngor wrth gyflawni eu dyletswyddau bob dydd.

2. Mae'r cod ymddygiad yn adlewyrchu'r arfer cyfredol a disgwylir bod gweithwyr yn gallu nodi'r safonau canlynol gan mai'r rhain y maent yn anelu i efelychu bob dydd.

3. Rhagwelir bod y cod ymddygiad hwn yn darparu gwell ddealltwriaeth i'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, o'r hyn a ddisgwylir i weithwyr y Cyngor a dull mae'r cyflogwr yn cefnogi ei weithwyr i gyflawni gwaith yn effeithiol ac mewn modd sydd yn barchus o anghenion yr unigolion.

4. Dylai pob gweithiwr ddangos esiampl dda o ran ymddygiad i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu. Mae'r canllawiau canlynol yn darparu manylion o enghreifftiau o arferion da sydd yn gorfod cael eu defnyddio, ynghyd â chodau ymddygiad penodol (e.e. Codau ymarfer Cyngor Sir y Fflint), a all fod yn berthnasol i rolau, gweithgareddau neu ddigwyddiadau penodol.

- Dylech bob amser fod yn agored i'r cyhoedd eich craffu pan fyddwch yn gweithio gyda phlant ac oedolion, a dylech osgoi sefyllfaoedd lle mae cynghorydd, gweithiwr, gwirfoddolwr neu ddarparwr gwasanaeth gyda phlentyn neu blant neu oedolyn diamddiffyn ar ben eu hunain gyda neb yno i'w harsylwi.
- Dylech ddilyn y broses gofynnol i adrodd digwyddiadau e.e. digwyddiad sydd o bwysigrwydd iechyd a diogelwch.
- Mae gan blant ac oedolion hawl i breifatrwydd, cydraddoldeb, parch ac urddas ac amgylchedd diogel a phositif.
- Mae'n rhaid i gynghorwyr, gweithwyr, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaeth contract roi blaenoriaeth i les a diogelwch y plentyn neu oedolyn cyn bod pryderon am berfformiad.
- Os yw plentyn neu oedolyn yn cyrraedd gweithgaredd neu wasanaeth yn dangos arwyddion neu symptomau sydd yn achosi pryder i chi, dylech weithredu yn briodol a dilyn y weithdrefn sydd wedi'i amlinellu yn y polisi.
- Byddwch yn ymwybodol o'r angen i sicrhau arferion diogel wrth gwrdd â phlant ac oedolion.

DYLECH

- Weithio yn unol â'r polisi diogelu hwn. Os oes gennych amheuaeth, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn eich Portffolio.
- Gweithio mewn amgylchedd agored (e.e. dylech osgoi sefyllfaoedd preifat neu'r rheiny na ellir eu harsylwi ac annog amgylchedd agored, h.y. dim cyfrinachau); Trin pob plentyn ac oedolyn yn deg gyda pharch ac urddas.
- Rhoi lles pob plentyn ac oedolyn yn gyntaf.
- Sicrhau pellter diogel a phriodol gyda chyfranogwyr (e.e. nid yw'n briodol i gael perthynas agos gyda phlentyn neu oedolyn).
- Creu perthynas gyfartal wedi selio ar ymddiriedaeth sydd yn galluogi plant ac oedolion rannu yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Cael yr wybodaeth fwyaf cyfredol ynghylch materion hyfforddi a diogelu.

- Bod yn esiampl ragorol - mae hyn yn cynnwys peidio ag ysmygu, yfed alcohol na rhegi yng ngŵydd plant ac oedolion.
- Gwneud yn siŵr bod cyfarpar ffotograffiaeth neu ffilmio yn cael ei ddefnyddio'n briodol, a bod rhiant neu ofalwr y cyfranogwyr wedi rhoi caniatâd.
- Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw anaf a geir, ynghyd ag unrhyw driniaeth a wneir yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Adrodd unrhyw bryderon ar unwaith i'ch rheolwr neu eu rheolwr os oes honiadau wedi'u gwneud yn ei erbyn/ herbyn.

NI DDYLECH

- Cyffwrdd neu ganiatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym neu iaith amhriodol neu wneud sylwadau rhywiol awgrymog.
- Gwneud i blentyn grio fel ffordd o'i reoli/ rheoli, neu ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad heb ei awdurdodi gan bolisi a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Anwybyddu unrhyw honiadau a wneir gan y plentyn neu'r oedolyn Dylai holl honiadau neu ddatgeliad o gamdriniaeth gan blentyn neu oedolyn diamddiffyn gael ei adrodd ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.
- Cyflawni tasgau o natur bersonol i blant neu oedolion lle gallant eu gwneud eu hunain.
- Gwahodd neu ganiatáu plant neu oedolyn i ddod i'ch cartref lle byddant ar eu pen eu hunain gyda chi.
- Mynd i ardaloedd sydd wedi ei neilltuo'n benodol i'r rhyw arall.
- Defnyddio'r rhyngrwyd, dyfeisiau electronig neu ffôn i gael mynediad at safleoedd pornograffi plant.
- Cael mynediad at unrhyw fath o bornograffi plant gan gynnwys deunydd argraffedig.
- Ymchwilio adroddiadau o gamdriniaeth
- Gwneud addewid i gadw cyfrinachau neu gyfrinachedd.
- Gwneud rhagdybiaeth neu gynnig eglurhad gwahanol.
- Cysylltu â'r camddefnyddwyr honedig
- Lledaenu gwybodaeth gyfrinachol ynghylch achosion unigol i unrhyw un, oni bai drwy weithdrefnau adrodd cydnabyddedig.

5. Bydd gweithiwr sydd yn torri unrhyw amod o'r cod ymddygiad uchod yn cael eu hymchwilio a gallant wynebu camau disgyblu a all arwain at ddiswyddiad a'r posibilrwydd o ymchwiliad troseddol os oes tystiolaeth o weithgaredd anghyfreithlon.

6. Bydd gwasanaethau gwirfoddol sydd yn torri cod ymddygiad yn cael eu hatal ar unwaith. Os oes tystiolaeth o weithgaredd anghyfreithiol, bydd enw'r gwirfoddolwr yn dod i sylw'r awdurdodau perthnasol a bydd ef/hi yn wynebu ymchwiliad troseddol.

Atodiad 4 Canllawiau Arferion Da i Gynghorwyr – Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion Diamddiffyn

1. Mae'r canllawiau hyn yn ddatganiad a disgrifiad o safonau'r ymddygiad a ddisgwylir gan holl aelodau'r Cyngor wrth fod mewn cysylltiad â phlant neu oedolion diamddiffyn *yn eu swydd fel cynghorydd.

2. Mae'r canllawiau yn atodol, a ddim yn cymryd lle, cod ymddygiad Aelodau. Mae cod ymddygiad yr Aelodau yn parhau yn berthnasol ble bynnag mae aelod yn gweithredu ei rôl fel aelod etholedig, a hefyd ar unrhyw adeg mewn perthynas i beidio dod â'r swydd neu'r Cyngor i anfri.

3. Rhai o ofynion y Cod yw: -
   - Dangos parch i eraill a bod yn ystyriol ohonynt.
   - I fynd i'r afael â chyfle cyfartal i bawb, beth bynnag yw eu rhyw, hil, Anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd.
   - Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd
   - Peidio ag ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dod â'ch swydd neu'r Cyngor i anfri.
   - Adrodd unrhyw ymddygiad sydd yn debygol o fod yn droseddol gan aelod neu weithiwr arall i'r awdurdod priodol.
   - I beidio â defnyddio eich sefyllfa yn amhriodol i achosi mantais neu anfantais i rywun.

4. Gall aelodau ddod i gysylltiad â phlant ac oedolion diamddiffyn drwy eu Swydd ar bwyllgor neu weithgor, neu drwy eu rôl fel aelod lleol. Hefyd gallant ddod i gyswllt â hwy wrth gynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol neu gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd gan y Cyngor. Mae gan bob aelod o'r Cyngor gyfrifoldeb rhiant corfforaethol dros blant sy'n derbyn gofal, ac mae gan bob aelod gyfrifoldeb i ddilyn arferion da ar gyfer diogelu plant ac oedolion diamddiffyn.

5. Bwriad y canllawiau hyn yw adlewyrchu'r arfer gyfredol, ac mae disgwyl bod aelodau yn nodi'r safonau canlynol fel y rhai y maent yn anelu i'w cyflawni yn ddyddiol.

6. Disgwylir bod y canllawiau hyn yn rhoi gwell ddealltwriaeth i'r cyhoedd o beth a ddisgwylir gan gynghorwyr pan maent yn dod i gysylltiad â hwy.

7. Dylai pob cynghorydd ddangos esiampl dda o ran ymddygiad i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu. Mae'r canllawiau isod yn rhoi manylion o enghreifftiau o arferion da sydd yn gorfod cael eu defnyddio

DYLECH

- Bod yn gyfarwydd â pholisïau a chanllawiau diogelu'r Cyhoedd, a'r gweithdrefnau cyfredol i adrodd digwyddiadau ayyb.
- Mynychu hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn.
- Adrodd pryderon neu honiadau ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Bod yn agored i graffu cyhoeddus drwy'r amser wrth weithio â phlant a phobl ifanc, a cheisio osgoi sefyllfaoedd lle'r ydych ar eich pen eich hun gyda phlentyn neu blant neu oedolyn diamddiffyn, heb neb yn eich goruchwylio.
- Mae gan blant ac oedolion hawl i breifatrwydd, cydraddoldeb, parch ac urddas ac amgylchedd diogel a phositif.
- Lleoli lles a diogelwch y plentyn neu'r oedolyn uwchlaw unrhyw ystyriaethau eraill.
- Creu perthynas gyfartal wedi selio ar ymddiriedaeth sydd yn galluogi plant ac oedolion rannu yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Bod yn esiampl rhagorol i blant ac oedolion diamddiffyn.

NI DDYLECH

- Gyffwrdd neu ganiatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym neu iaith amhriodol neu wneud sylwadau rhywiol awgrymog.
- Dylai holl honiadau neu ddatgeliad o gamdriniaeth gan blentyn neu oedolyn diamddiffyn gael eu hadrodd ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.
- Gwahodd neu ganiatáu plant neu oedolyn diamddiffyn i ddod i'ch cartref lle byddant ar eu pen eu hunain gyda chi.
- Mynd i fannau o adeiladau'r Cyngor sydd wedi'u dyrannu'n benodol i'r rhyw
- Defnyddio'r rhyngrwyd, dyfeisiau electronig neu ffôn i gael mynediad at safleoedd pornograffi plant.
- Lledaenu gwybodaeth gyfrinachol ynghylch achosion unigol i unrhyw un, oni bai drwy weithdrefnau adrodd cydnabyddedig.
- Ymchwilio honiadau o gamdriniaeth
- Cysylltu â'r camddefnyddiwr honedig.

Atodiad 5 Cadw Cofnodion

Awgrymiadau i gadw cofnodion

- Gwybodaeth ffeithiol e.e. amseroedd, dyddiadau, enwau, tystion
- Holl gysylltiadau h.y. wyneb yn wyneb, ffôn, cyfathrebu
- Cyswllt gydag asiantaethau eraill
- Penderfyniadau a wnaethpwyd
- Rhaid cadw cofnodion yn gofnod clir a chywir o beth ddywedodd pobl yn eu geiriau eu hunain.
- Cadw'n wrthrychol
- Rhestru gweithredoedd yn y drefn gywir
- Dyddiad a llofnodi eich cofnodion
- Defnyddio beiro pelbwynt – inc du yn ddelfrydol
- Ysgrifen llaw eglur
- Cadw copi ar gyfer cyfeiriad yn y dyfodol

Beth i'w gofnodi

- Beth a arsylwyd
- Beth a glywyd
- Beth a ddatgelwyd/ ddywedwyd wrthych chi
- Dyddiad y digwyddiad
- Amser y digwyddiad
- Pobl sy'n gysylltiedig
- Lleoliad
- Llofnodi a dyddio'r cofnod

Dylid rhannu gwybodaeth pan:

- Mae perygl i unigolyn neu eraill
- Mae'r gyfraith wedi'i dorri

Sut i rannu gwybodaeth

- Cael caniatâd os yw'n bosibl, os nad, hysbysu'r unigolyn y bydd rhaid i chi ddweud wrth rywun
- Sail angen gwybod
- Rhannu diogel – dim ffacsio, negeseuon ar beiriannau ateb. Os na allwch gadarnhau pwy yw'r unigolyn, ddim dros y ffôn
- Cofnodi cofnodion
- Os ydych mewn amheuaeth, gofynnwch i'r rheolwr

Deddf Diogelu Data

Mae'r gyfraith yn disgwyl bod pob cofnod yn:

- Gywir, onest ac yn deg
- Cael ei gadw'n ddiogel
- Gyda phwrpas dilys o gael eu cadw
- Yn berthnasol i'w pwrpas

Atodiad 6

CYNGOR SIR Y FFLINT

PANEL DIOGELU CORFFORAETHOL

CYLCH GORCHWYL

1. Pwrpas y Swydd

1.1 Sicrhau bod “Diogelu” yn fusnes i bawb ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor gan weithio ar y rhagosodiad bod “Diogelu” yn gydsyniad ehangach na diogelwch plant ac oedolion, ac yn ymdrin â hyrwyddo:

- Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol;
- Amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Cyfraniad at gymdeithas
- Lles economaidd a chymdeithasol

1.2 Sicrhau bod gan y Cyngor reolaeth effeithiol a phrosesau a rheolaethau sicrwydd gweithredol mewn lle i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gorfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill.

1.3 Ystyried materion a atgyfeiriwyd i’r Panel o fewn ei gylch gorchwyl a i yrru gwelliannau ymlaen o ran diogelu.

2. Cyfrifoldebau'r Panel

2.1 Cael trosolwg o gyfrifoldebau'r Cyngor (ac asiantaethau partner) tuag at ddiogelu ac ymchwilio ffyrdd y mae’r Cyngor ar y cyfan ac asiantaethau partner yn gallu sicrhau diogelu a lles plant ac oedolion diamddiffyn yn yr ardal.

2.2 Sicrhau bod y Cyngor a’i adrannau yn cydymffurfio’n llawn â deddfwriaeth a pholisi sydd yn berthnasol i ddiogelu.

2.3 Sicrhau bod trefniadau gweithio ar y cyd da rhwng adrannau’r Cyngor ac asiantaethau partner, gan gynnwys trefniadau gwaith gyda Byrddau Diogelu Gogledd Cymru.

2.4 Monitro a chraffu perfformiad gweithgareddau diogelu ar draws y Cyngor a chefnogi arferion da a herio a bod yn gyfrifol am arferio gwael.

2.5 Sicrhau bod arferion cadarnhaol yn cael eu cynnal, gwersi yn cael eu dysgu a newidiadau yn cael eu gwneud yn y meysydd sydd angen gwelliannau.

2.6 Datblygu a goruchwylio gweithredu polisi diogelu eang y Cyngor

2.7 Datblygu a goruchwylio gweithredu Strategaeth Ddatblygu Gweithlu Diogelu a Chynllun Hyfforddi.

2.8 Datblygu a goruchwylio gweithredu rhaglen waith blynyddol ar gyfer y Panel.

2.9 Cynnal trosolwg strategol o holl ddatblygiadau, cynlluniau, polisïau a Strategaethau ar gyfer diogelu a gwneud argymhellion priodol i'w gweithredu.

2.10 Cynhyrchu adroddiad diogelu blynyddol (a fydd yn cysylltu â gofynion am adroddiad blynyddol drwy'r Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru)

2.11 Sicrhau bod prosesau recriwtio diogel yn cael eu gweithredu a'u glynu ar draws y Cyngor

2.12 Sicrhau bod materion diogelu thematig yn cael eu hymdrin ar draws y Cyngor e.e. masnachu pobl/ caethwasiaeth modern/ camfanteisio'n rhywiol ar blant.

2.13 Sicrhau bod Aelodau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar faterion sy'n berthnasol i arferion diogelu

3. Aelodaeth

3.1 Bydd aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

- Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd)
- Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid (Is-gadeirydd)
- Uwch-Reolwr Diogelu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Arweinyddion Diogelu Dynodedig o bob Portffolio'r Cyngor (gweler Atodiad 1)
- Cynrychiolydd Gwasanaeth Adnoddau Dynol
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Aelodau Etholedig

3.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i gynrychiolydd Portffolio gael ei enwi i fynychu cyfarfod os nad yw'r cynrychiolydd a enwir yn gallu mynychu.

3.3 Gall aelodau ychwanegol gael eu cyfethol i'r Panel gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd.

3.1 Yn unol â'r agenda, gall unigolion sydd ddim yn rhan o'r Panel gael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd i drafod a/neu gyflwyno eitemau allweddol.

4. Trefniadau Llywodraethu

4.1 Bydd y grŵp yn cyfarfod bob chwarter (yn fwy aml os bydd angen)

4.2 Darperir cefnogaeth fusnes drwy Gwasanaethau Corfforaethol

4.3 Bydd Arweinwyr Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am ledaenu a chael gwybodaeth yn ôl i'r ardaloedd gwasanaeth, a byddant yn atebol i gyflawni'r camau gweithredu a thasgau a phriodolwyd i'w ardal gwasanaeth.

4.4 Byd y grŵp diogelu corfforaethol yn adrodd y peryglon allweddol, materion a pherfformiad i'r Tîm prif Swyddog bob chwarter, a bydd yn gweithredu fel cwndid corfforaethol i'r Byrddau Diogelu Gogledd Cymru i oedolion a phlant.

4.5 Adrodd i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet

- Bydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg ac Adnoddau Corfforaethol A'R Cabinet yn cael gwybodaeth ynghylch gwaith y Panel Diogelu Corfforaethol drwy'r Adroddiad Diogelu Blynyddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau graffu a herio
- Bydd adroddiadau yn nodi'r gwaith penodol o fewn Portffolios unigolyn yn cael eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn unol â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a gytunwyd.
- Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn cael gwybodaeth ynghylch y rhaglen waith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, y cynnydd yn erbyn y rhaglen waith a'r prif negeseuon sy'n dod o drefniadau rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd.
- Bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn cael eu hystyried wrth bennu blaenoriaethau am raglenni gwaith dyfodol y Panel.